

Prosiect Perfformiad Ymarferol

Bydd y portffolio yma'n seiliedig ar astudiaeth achos 2 sef astudiaeth achos Ben, 6 oed.

Adnabod a Chofnodi

Ar y naill llaw, mae Richard D. Krugman (1980) yn nodi, yn ei lyfr, fod cam-drin plant yn cael ei adnabod fel problem mawr i gymdeithasau, ond bod gwelliannau yn cael eu cyflwyno i adnabod yr arwyddion ac i sicrhau diogelwch plant ifanc. Ar y llaw arall dywedir na all unrhyw berson, disgyblaeth neu sefydliad, ddatrys y broblem fod plant yn cael eu cam-drin, ond gellir gwneud mwy i sicrhau lleihad yn y niferoedd sy'n dioddef. Mae Gilbert et al. (2009) yn nodi pwyntiau allweddol pwysig pan yn adnabod camdrin plentyn. Dywedir bod adnabod cam-drin yn gynnar yn sicrhau diogelwch plentyn, iechyd, a llesionau drwy'r ddarpariaeth o ymyrraethau angenrheidiol. Pwysleisir hefyd bod llawer o effeithiau ofnadwy yn gallu eu hosgoi pan yn adnabod arwyddion o gamdrin, megis marwolaethau, anafiadau ac effeithiau negyddol ar yr ymenydd a'i ddatblygiad. Pan yn cyfuno'r ffactorau yma â chyd-destun yr astudiaeth achos, mae'n amlwg bod sefyllfa Ben yn un pryderus a byddai adnabod y cam-drin yn hanfodol i fywyd Ben. Byddai'n hanfodol oherwydd byddai amlasiantaethiau yn gallu cyfuno i gefnogi Ben a'i deulu. Ar y naill llaw, mae Jackson et al. (2015) yn nodi mai ymddangosiad corfforol plentyn yw'r arwydd cyntaf o gam-drin maethol. Dywedir y dylai ymarferwyr gadw cofnod o dwf plentyn, yn enwedig eu pwysau i gymharu â'u taldra. Ar y llaw arall, mae pwysau'n cael ei fesur drwy ddefnyddio'r system BMI a dylai plentyn fod yn pwysu'n iach pan yn cymharu pwysau â thaldra. Maen bwysig trafod arsylwi plant i sicrhau eu bod yn derbyn maetholion priodol yn ystod diwrnod ysgol. Yn astudieth Ben, nid yw'n derbyn y maetholion sydd angen arno ac un arwydd arall ei fod yn cael ei gam-drin yw bod ei ddillad ysgol yn frwnt, a'i wallt a'i dannedd heb eu brwsio. Mae Jackson et al. yn nodi y gallwch hefyd gynnal arsylwad o arferion y plentyn os yn drwgdybio bod plentyn yn cael ei gam-drin.

Mae Tanner a Turney (2000) yn dweud ni ddylai ymarferydd proffesiynol gymryd nodiadau yn ystod sesiynau er mwyn sicrhau'r rhyngweithio gorau phosib â manylder y rhyngweithiad a'i gynnwys emosiynol. Yn dilyn yr arsylwad, dylai ymarferydd proffesiynol ysgrifennu recordiad manwl o'r hyn sydd wedi ei arsylwi a'i gadw'n ddiogel. Mae'r wybodaeth sydd wedi ei derbyn yn galluogi adfyfyrio'r teimladau a deimlwyd yn ystod yr arsylwad, ac hefyd yn rhoi cyfle i'r ymarferydd baratoi am sgwrs nesaf neu drafod â Swyddog Diogelu plant yr ysgol. Nodwyd bod arsylwadau yn gallu amlygu'r annigonolrwydd yn y gofal sy'n cael ei gynnig ac hefyd helpu deall pam mae hyn yn digwydd. Yn astudiaeth Ben, gall arsylwi'r rhiant sy'n dod â Ben i'r ysgol alluogi canfyddiadau o'r ffordd mae Ben yn cael ei drin pan yn cael ei ollwng yn yr ysgol. Mae Konte et al. (1998) yn trafod bod y rhan fwyaf o ganllawiau yn argymhell y dylai arsylwadau gael eu cynnal yn breifat o fewn amgylchedd gyfeillgar i blentyn, heb wrthdynciadau (Saywitz a Camparo 2014). Mae cyfweliad preifat yn lleihau cymysgedd o eiriau plant eraill. Nodir ei fod yn bwysig i fod yn amyneddgar pan yn trafod digwyddiadau â phlentyn oherwydd gall fod yn amharod i drafod, felly mae'n bwysig i adael plant i siarad yn amser eu hunain. Nodir, pan yn trafod â phlentyn, ei fod yn bwysig i wneud iddynt deimlo mor

gyfforddus â phosib, ac i beidio pwysu arnynt yn ormodol am atebion i gwestiynau. Maent yn nodi, os mae plentyn yn amharod i rannu gwybodaeth, y dylai ymarferydd proffesiynol barhau â'r arsylwadau rhag ofn bod angen cefnogaeth brys. Pan yn ystyried astudiaeth achos Ben nid yw Ben yn hollol barod i rhannu gwybodaeth i ddechrau, ond mae'n dweud na wnaeth Mam siopa erbyn diwedd y sgwrs. Felly, yn amlwg, mae hyn yn dangos pwysigrwydd i fod yn amyneddgar pan yn holi. O fewn archwiliad gan Mills et al. (2011), nodir ei fod yn bwysig i amrywio'r cwestiynnau rydych yn gofyn i blant, boed ei bod yn gwestiwn agored neu gaeedig. Hefyd, nodir na ddylai ymarferydd proffesiynol ofyn gormod o gwestiynau i blentyn oherwydd efallai nad yw'n barod i ateb y cwestiynau. Nodir, i dderbyn y wybodaeth orau gan blant, na ddylid rhoi amser iddynt ateb y cwestiynau, na ddylid holi mil o gwestiynau ar unwaith, ac yn bennaf ddylid peidio gorfodi atebion ganddynt.

Ar y nail law, gellir cofnodi gwybodaeth drwy ddefnyddio nodiadau ar ôl sgwrsio neu ddefnyddio dyddiadur personol i ddisgybl. Ar y llaw arall, gellir defnyddio methodau cofnodi, megis holiaduron, sesiynau arsylwi ac ati. Mae'n bwysig nodi bod cofnodi gwybodaeth ddim ond yn cynnwys cwestiynau a thrafod ond hefyd lluniau (Tilstone, 1998).

Adrodd ac Atgyfeirio

Mae Baginsky (2000) yn nodi gweithdrefnau adrodd fel un o'r pwyntiau mwyaf pwysig pan yn ceisio amddifyn plant. Mae'n dweud dylai nodiadau am ddisgyblion fod yn glir ac yn ddealladwy i bob person sydd angen mynediad atynt, ond yn fwy pwysig, dylai mynediad i'r wybodaeth gael ei chyfyngu i'r bobl sydd ei hangen yn unig. Mae Baginsky yn dweud y dylai bob ysgol gael polisïau ysgrifenedig sy'n adrodd unrhyw amheuaeth am gam-drin, y dylai'r polisïau fod yn hawdd i'w cael i bob aleod staff gael mynediad iddynt. Mae'n nodi bod gan bob ysgol Swyddog Diogelu ddynodedig sy'n gyfrifol am ddelio ag adroddiadau o gam-drin. Mae'r Swyddog Diogelu yn derbyn yr hyfforddiant priodol sydd angen i ddelio â'r sefyllfaoedd hyn. Mae Baginsky yn trafod y pwysigrwydd o adroddiadau cywir a manwl. Mae Baginsky yn nodi'r pwysigrwydd o gynnwys dyddiad, amser a manylder y digwyddiad i osgoi unrhyw broblemau. Mae'n nodi bod cyfrinachedd yn holl bwysig pan yn trafod angen plentyn a'r angen i amddiffyn ei breifatrwydd. Dylai pob aelod o staff dderbyn cymorth pan yn adrodd sefyllfaoedd sensitif oherwydd gall fod yn drallodus, mae'n bwysig cynnig cymorth megis cwnsela a sesiynau adrodd yn ôl. Yn olaf, mae'n nodi bod trafodaeth dilynol yn bwysig fel bod y plentyn yn gallu derbyn cymorth parhaus. Bydd dilyn y camau yma'n holl bwysig pan yn trafod astudiaeth achos Ben a'i frawd oherwydd byddai'n cynnig y cymorth gorau posib ar eu cyfer.

Yn ôl Proctor a Dubowitz (2013), mae diffinio cam-drin yn broses anodd iawn oherwydd nifer o ffactorau. Nodir bod gwahaniaethau diwyllianol yn gallu bod yn ffactor sy'n ei wneud yn anodd ddiffinio cam-drin. Ar y naill law, mae gan bob diwylliant gwahanol disgwyliadau o'u plant megis cyfrannu mwy i waith yn y cartref o oedran ifanc, bydd rhai teuluoedd yn meddwl bod hyn yn dderbyniol. Ar y llaw arall, gall rai pobl gweld bod hyn yn anaddas. Nodir bod gofawyr plant proffesiynol yn aml yn dibynnu ar eu barn pan yn penderfynu os mae plentyn yn cael ei gam-drin. Gall hyn arwain at anghysondebau wrth adnabod ac adrodd cam-drin oherwydd bod gan wahanol broffesiynwyr farn wahanol ar beth yw cam-drin. Mae Proctor a Dubowitz (2013) yn dweud bod cam-drin gan amlaf yn digwydd o achos dynameg cymhleth

teuluol, megis camdriniaeth domestig, camddefnydd sylweddau neu broblemau iechyd meddwl. Felly, pan yn trafod sefyllfa Ben, mae'n bwysig i ymchwilio'r sefyllfa cartrefol oherwydd gall llawer o ffactorau fod y rheswm am gam-drin Ben. Yn olaf nodwyd bod adnabyddiaeth effeithiol a ymyrraeth yn aml yn cynnwys cydweithio rhwng amryw o weithwyr proffesiynol. Mae'n bwysig bod yr unigolion yma wedi derbyn ymarfer penodol i ddelio â'r sefyllfa ac yn deall beth i wneud ym mhob sefyllfa.

Mae HM Government (2022) yn nodi y dylai bob disgybl deimlo'n ddiogel pan yn lleoliad yr ysgol. Mae'r ysgol yn atebol ar gyfer iechyd a diogelwch disgyblion a staff. Gan amlaf y prifathro a'r athro/athrawes dosbarth sy'n gyfrifol am ddelio â sefyllfaoedd disgybl yn yr ysgol. Maent yn derbyn cyfrifoldeb i sicrhau bod pob risg yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod yr unigolion yma yn delio â sefyllfa, fel astudiaeth achos Ben. Dylai bob ysgol benodi rhywun cymwys i sicrhau bod anghenion iechyd a diogelwch bob disgybl yn hanfodol. Dylai'r person yma fod ag ymarfer priodol i roi arweiniad synhwyrol ar sut i reoli sefyllfaoedd sensitif. Pan yn trafod sefyllfa Ben mae'n bwysig bod y Swyddog Diogelu plant yn rhan o'r sgysiau, oherwydd nhw sydd â'r hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer delio â'r sefyllfa. Hefyd, nodir pwysigrwydd asesiad risg i allu adnabod mesurau sydd angen eu cymryd i sicrhau y canlyniad gorau posib i bawb sydd ynghlwm â'r sefyllfa. Mae cyfreithiau iechyd a diogelwch yn gorfodi bob ysgol i wneud asesiad risg fel ei bod yn gallu gosod mesurau penodol. Hefyd mae'n bwysig nodi bod y gyfraith yn disgwyl i'r ysgol recordio'r asesiad risg i leihau'r risgiau yma a chanlyniadau disgwylidig. Mae HM Government (2024) yn dweud dylai bob ymarferydd proffesiynol ddeall ei ofynion statudol wrth sicrhau diogelwch a lles da i blant a phobl ifanc. Nodir y dylai ymarferwyr proffesiynol amddiffyn plant rhag cam-drin, rhwystro effeithiau negyddol i gyflwr corfforol a meddyliol plant, sicrhau bod plant yn tyfu mewn amgylchedd cyson â'r darpariaethau a'r gofal sydd angen, ac hefyd galluogi gweithredu i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn y canlyniadau gorau. Pan yn cysylltu achos Ben â'r cyddestun hyn mae'n bwysig bod effeithiau hir-dymor yn digwydd ac mae'n bwysig ymyrryd yn y sefyllfa'n gyflym.

Mae'r Association for School and College Leaders (2024) yn nodi bod rhaid i bob ysgol ac arweinydd wneud penderfyniadau'n deg drwy ddefnyddio'r dystiolaeth orau bosib heb wahaniaethu neu ragfarnu. Nodir y dylid ystyried fframweithiau moesegol drwy feddwl sut mae eraill yn mynd i deimlo pan yn cael eu cwestiynu, a sut y byddent yn ateb.

Cyfrifoldeb y lleoliad

Mae Crosson-Tower (2003) yn nodi bod lleoliadau'n teimlo bod ganddynt gyfrifoldebau proffesiynol sy'n cael eu cefnogi gan ymrwymiad dwfn i les plant. Mae gwerth yr ymrwymiad hyn yn hynod bwysig gan ei fod yn helpu gwaredu bob math o gam-drin a sicrhau bod pob modd o ofal yn cael ei ddarparu i'r plentyn. O fewn lleoliadau nodir bod cydweithio fel tîm yn sicrhau fod pob plentyn yn derbyn gofal priodol ac yn gallu sicrhau diogelwch plant drwy trafodaethau ac arsylwadau cyson. Nodir os oes gan leoliad ddrwgdybiaeth am sut mae rhieni/gofalwyr yn trîn eu plentyn y gellir cynnal trafodaethau ag asiantaethiau gwahanol a gofyn am gymorth pan yn wynebu achosion trafferthus, er enghraifft astudiaeth achos Ben.

Mae Xaba (2014) yn nodi y dylai ymagwedd gyfannol tuag at ddiogelu gynnwys diogelwch a sicrwydd i blant pan yn trafod agweddau seicogymdeithasol a chorfforol. Mae sicrhau ymagwedd holistig hefyd yn golygu diogelwch ar gyfer amgylchedd yr ysgol drwy gynnwys rhanddeiliaid, a dylai hefyd gynnwys partneriaethau â fframweithiau cymunedol. Yng ngyd-destun ar astudiaeth achos yma byddai partneriaethau'n cynnwys disgyblion, ymarferwyr proffesiynol, gwasanaethau'r gyfraith, rhieni a sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth i blant. Yn ôl HM Government 2018, mae ysgolion yn darparu cefnogaeth ychwanegol i blant sy'n dioddef o gam-drin i'w helpu cyrraedd eu gwir potensial. Mae'r ddarpariaeth maent yn cynnig yn cynnwys cefnogaeth un wrth un a chwnsela. Nodir hefyd bod rhai ysgolion yn chwarae rôl hanfodol drwy gynorthwyo plant i gwrdd â'u hanghenion. Yn yr ysgolion yma mae athrawon yn cymryd eu hamser i wybod, ac i ddeall, sefyllfa'r plentyn, i gynllunio'n ofalus i ddarparu cefnogaeth ac hefyd ryngweithio â phartneriaid wrth gynllunio'n amlasiantaethol. Pan yn ystyried astudiaeth achos Ben mae'n bwysig nodi y byddai cymorth amlasiantaethol yn hanfodol iddo a'i frawd oherwydd byddai'n rhoi i Ben yr hyn nad yw'n derbyn yn y cartref, megis bwyd, dillad glan ac hylendid cyffredinol.

Mae UNCRC (1989) erthygl 3 yn nodi bod gan pob plentyn hawliau, beth bynnag ei hil, crefydd neu gallu, felly mae'n bwysig nodi bod gan Ben yr un hawl i'r gofal mae pob plentyn arall yn ei dderbyn. Hefyd, mae erthygl 3 yn nodi bod rhaid ystyried, ym mhob gweithred sy'n ymwneud â phlant, boed gan sefydliadau lles cymdeithasol cyhoeddus neu breifat, llysoedd barn, awdurdodau gweinyddol neu gyrff deddfwriaethol, mai lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth. Yr erthygl sydd â'r cyswllt mwyaf agos i'r astudiaeth achos yma yw erthygl 19 sy'n nodi y dylai bob plentyn gael ei amddiffyn rhag unrhyw fath o gam-drin corfforol, meddyliol, anaf a cham-driniaeth neu ymelwad.

Ar y nail law, mae gan yr erthygl yma gyswllt agos i astudiaeth achos Ben oherwydd ei fod yn dioddef o gam-drin. Ar y llaw arall, mae'n bwysig nodi pwysigrwydd adnabod arwyddion o gam-drin i sicrhau bod yr erthyglau yma'n gallu cael eu defnyddio'n effeithiol i roi'r gofal gorau i Ben. Mae Detrick (2023) yn nodi bod confensiwn cenhedloedd unedig hawliau plentyn yn hynod bwysig. Nodir, heb hyn, y byddai lawer o blant o gwmpas y byd yn dioddef o gam-drin a'i fod yn gosod safonau da i rieni wrth iddynt ddarparu'r fagwraeth orau i'w plant.

Reference List

Association of School and College Leader (2024) *FRAMEWORK FOR ETHICAL LEADERSHIP IN EDUCATION*. Ar gael: <https://www.ascl.org.uk/ASCL/media/ASCL/Our%20view/Campaigns/Framework-for-Ethical-Leadership-in-Education.pdf> (Defnyddio 14 Gorffennaf 2024)

Crosson-Tower, C., 2003. *The role of educators in preventing and responding to child abuse and neglect*. US Department of Health and Human Services, Administration for Children and Families, Administration on Children, Youth and Families, Children's Bureau, Office on Child Abuse and Neglect. Ar gael: https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=p1tHAAAAMAAJ&oi=fnd&pg=PP7&dq=The+Role+of+Educators+in+Preventing+and+Responding+to+Child+Abuse+and+Neglect&ots=fwSQ0GvIr9&sig=yq9Jbq9upud4id0GiwG_DFvHzSQ#v=onepage&q=The%20Role%20of%20Educators%20in%20Preventing%20and%20Responding%20to%20Child%20Abuse%20and%20Neglect&f=false (Defnyddio 13 Gorffennaf 2024)

Detrick, S., 2023. *A Commentary on the United Nations Convention on the Rights of the Child*. BRILL Ar gael: https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=lsX7EAAAQBAJ&oi=fnd&pg=PR3&dq=The+United+Nations+Convention+on+the+Rights+of+the+Child&ots=t3mTWDaX1i&sig=4oTHFUDNurbaUMn_Oi0BgrKvzU0#v=onepage&q=The%20United%20Nation%20Convention%20on%20the%20Rights%20of%20the%20Child&f=false (Defnyddio 14 Gorffennaf 2024)

Gilbert, R., Kemp, A., Thoburn, J., Sidebotham, P., Radford, L., Glaser, D. & MacMillan, H.L. 2009, "*Child Maltreatment 2: Recognising and responding to child maltreatment*", *The Lancet*, vol. 373, no. 9658, pp. 167-80. Ar gael: <https://www.proquest.com/docview/199016618/fulltextPDF/5AA5D397CD6A4725PQ/1?accountid=130472&sourcetype=Scholarly%20Journals> (Defnyddio 13 Gorffennaf 2024)

Helfer, R.E. (Ray E. and Kempe, C.H. (Charles H. (1980) *The Battered child*. 3rd ed., rev.expanded. Chicago: University of Chicago Press. (Defnyddio 13 Gorffennaf 2024)

HM Government (2018) *Child neglect: how are schools addressing the issue?* Ar gael: <https://educationinspection.blog.gov.uk/2018/09/26/child-neglect-how-are-schools-addressing-the-issue/> (Defnyddio 14 Gorffennaf 2024)

HM Government (2022) *Health and safety: responsibilities and duties for schools*. Ar gael: <https://www.gov.uk/government/publications/health-and-safety-advice-for-schools/responsibilities-and-duties-for-schools> (defnyddio 14 Gorffennaf 2024)

Jackson, A.M., Kissoon, N. and Greene, C. (2015) 'Aspects of Abuse: Recognizing and Responding to Child Maltreatment', *Current problems in pediatric and adolescent health care*, 45(3), pp. 58–70. Ar gael: <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1538544215000176> (Defnyddio 13 Gorffennaf 2024)

McCord, J. (1998) *The APSAC Handbook on child maltreatment*. Edited by John N. Briere, Lucy Berliner, Josephine A. Bulkley, Carole Jenny and Theresa Reid. Sage Publications, London EC2A 4PU, March 1996, pp464. Ar gael: https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=nGNCDgAAQBAJ&oi=fnd&pg=PP1&dq=The+APSAC+Handbook+on+Child+Maltreatment&ots= O8cE7TQsd&sig=0XMn-ITB643KPL7K8wmbR_j7Kcw#v=onepage&q=The%20APSAC%20Handbook%20on%20Child%20Maltreatment&f=false (Defnyddio 13 Gorffennaf 2024)

Mills, C.M., Legare, C.H., Grant, M.G. and Landrum, A.R., 2011. Determining who to question, what to ask, and how much information to ask for: The development of inquiry in young children. *Journal of Experimental Child Psychology*, 110(4), pp.539-560. Ar gael: <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0022096511001603> (Defnyddio 13 Gorffennaf 2024)

Proctor, L.J. and Dubowitz, H., 2013. Child neglect: Challenges and controversies. In *Handbook of child maltreatment* (pp. 27-61). Dordrecht: Springer Netherlands. Ar Gael: https://d1wqtxts1xzle7.cloudfront.net/76670998/978-94-007-7208-3_2-libre.pdf?1639758395=&response-content-disposition=inline%3B+filename%3DChild+Neglect+Challenges+and+Controversi.pdf&Expires=1720981749&Signature=laaKwdBDy4EOBuxFOopSACry3h4AeuNynVN6EbO6fPBVK1jWiDROQGt4KT01f4uQYnGU5nNP1IOc-6QmNLrhY3bXBJ9JSSI47VQT~jKhuWspWkGJ-JdXq61gyu6JwAlXlirtAdtdBbrC032ROKqmTubYOTvxIMr-s14TftM9j0ibW0936eNOCfHa27YwEKfVMFvf7ViO0g6farfci5UsH8LC5Q~8k1ZO0kte nR0jYFk18TyyClczWvSH3C7P-1ZDtJnedf9tP7IVdUDPaylQHqWHzxLqxcAMzUkCEWqBFxP7TNwUalk74~LXzR7c2vXF8R8pcKxPVavVQQ6wTvTy0Q_&Key-Pair-Id=APKAJLOHF5GGSLRBV4ZA (defnyddio 14 Gorffennaf 2024)

Tanner, K. and Turney, D. (2000), *The role of observation in the assessment of child neglect*. *Child Abuse Rev.*, 9: 337-348. Ar gael: [https://doi.org/10.1002/1099-0852\(200009/10\)9:5%3C337::AID-CAR636%3E3.0.CO;2-C](https://doi.org/10.1002/1099-0852(200009/10)9:5%3C337::AID-CAR636%3E3.0.CO;2-C) (Defnyddio 13 Gorffennaf 2024)

Tilstone, C., 2013. *Recording evidence*. In *Observing Teaching and Learning* (pp. 32-57). David Fulton Publishers. Ar gael: <https://www.taylorfrancis.com/chapters/edit/10.4324/9781315067650-3/recording-evidence-christina-tilstone> (Defnyddio 13 Gorffennaf 2024)

Unicef 1989, *Article 19*. Ar gael: https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf (Defnyddio 14 Gorffennaf 2024)

Unicef 1989, *Article 3*. Ar gael: https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf (Defnyddio 14 Gorffennaf 2024)

Xaba, M.I., 2014. A holistic approach to safety and security at schools in South Africa. *Mediterranean Journal of social sciences*, 5(20), pp.1580-1589. Ar gael: <https://pdfs.semanticscholar.org/4b58/f908a96418c8b49ae41ca6d9b56a8405c89e.pdf> (Defnyddio 14 Gorffennaf 2024)